

**Dyddiad:** Dydd Mercher 18 Rhagfyr 2002

**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Teitl:** Y Gynddaredd ac Iechyd Pobl

### **Rhagarweiniad**

1. Bu cryn ddiddordeb yn y gynddaredd yn ddiweddar wedi i ddyn farw o'r clefyd. Credir bod yr achos hwnnw'n gysylltiedig â lyssafeirws ystlumod Ewropeaidd (EBL). Achosir y gynddaredd gan nifer o rabdofeirysau sy'n perthyn yn agos. Dyma un o'r heintiau hynaf y gwyddys amdano sy'n effeithio ar bobl, ac mae'n rhywbeth sy'n peri cryn ddychryn. Ceir cofnod o'r clefyd, a'r ffaith ei fod wedi ei drosglwyddo i bobl drwy boer ci cynddeiriog, mewn dogfennau cyfreithiol o Fesopotamia tua 2300 CC. Disgrifiwyd y gynddareg mewn cn tua 500 CC a symptomau nodweddiadol hydroffobia a brathiad gan anifail yn 100 OC. Clefyd sy'n effeithio ar gn yn bennaf yw'r gynddaredd. Credir i Ewropeaid fynd â'u cn i'r Byd Newydd ac felly gyflwyno'r gynddaredd i diroedd America. Daeth Pasteur o hyd i'r brechlyn cyntaf at y gynddaredd ym 1885. Cyn 2002, ni fu achos yn y DU ers 1902. Ers 1946, mae Gwasanaeth Labordai Iechyd y Cyhoedd (PHLS) wedi cofnodi 20 o achosion yng Nghymru a Lloegr, pob un wedi'i fewnforio ac yn ymwneud fel rheol â brathiad gan gi strae.

### **Achosion Diweddar o'r Gynddaredd**

2. Fe fyddwch wedi clywed drwy'r cyfryngau bod claf wedi cael triniaeth at y gynddaredd yn yr Alban. Mân symptomau niwrolegol oedd arno ar y cychwyn. Datblygodd y symptomau hynny'n salwch cynyddol oedd yn gyson â'r gynddaredd. Cynhaliwyd profion cychwynnol ond ni chafwyd canlyniad pendant. Cadarnhaodd yr Asiantaeth Labordai Milfeddygol bod y claf wedi'i heintio â lyssafeirws ystlumod Ewropeaidd ddydd Sul 24 Tachwedd. Yn anffodus, bu farw'r claf y diwrnod y cadarnhawyd y diagnosis.

3. Yr un oedd y math penodol hwn o feirws (EBL2) â'r math a gafwyd mewn ystlum Daubenton yn Swydd Gaerhirfryn yn gynharach eleni.

4. Ym mis Gorffennaf 2002 daeth teulu o hyd i ystlum Daubenton ifanc, a daeth warden ystlumod gwirfoddol i fynd ag ef ymaith. Erbyn 11 Medi, roedd yr ystlum wedi troi'n ymosodol a brathodd y warden ar ei law. Gwaethygodd ymddygiad yr ystlum ac ar 21 Medi cafodd ei ddiinstrio. Archwiliodd y

Labordy Milfeddygol Canolog yr ystlum a chael bod feirws EBL arno. Cafodd y warden imiwnoglobwlin at y gynddaredd a chwrs o frechlyn. Cafodd y teulu a ddaeth o hyd i'r ystlum eu brechu yn erbyn y gynddaredd a rhoddwyd yr anifeiliaid a fu mewn cysylltiad â'r ystlum mewn cwarantín. Nid yw'r sawl a fu'n trin yr ystlum na'r cysylltiadau eraill wedi datblygu'r gynddaredd.

5. Cafwyd adroddiad am achos arall o EBL mewn ystlum yn y Deyrnas Unedig ym 1996. Roedd yr achos hwnnw o'r Alban, sydd bellach wedi marw, hefyd yn warden ystlumod gwirfoddol. Nid oedd wedi'i frechu yn erbyn y gynddaredd.

### **Brechu cyn dod i gysylltiad â'r gynddaredd**

6. Mae modd i rai grwpiau o unigolion gael brechiad cyn dod i gysylltiad â'r gynddaredd. Rhestrir y grwpiau hynny yng nghanllawiau 1996 "Immunisation against Infectious Diseases". Mae pobl a chanddynt drwydded i drin ystlumod ar y rhestr honno. Yn sgil y 2 achos a gafwyd yn ddiweddar, argymhellir bellach y dylid cynnig brechiad i bobl sy'n trin ystlumod yn rheolaidd, yn ogystal ag i bobl a chanddynt drwydded i'w trin.

### **Atal y clefyd ar ôl dod i gysylltiad â'r gynddaredd**

7. Mae cyfarwyddyd ar drin pobl sydd wedi'u brathu neu'u crafu gan ystlum ar gael o Labordy Ymchwil Feirysau PHLS, ac mae gwybodaeth hefyd ar wefan PHLS ([www.phls.co.uk](http://www.phls.co.uk)).

### **Feirysau'r Gynddaredd**

8. Mae'r gynddaredd yn rhan o deulu o feirysau o'r enw rhabdoviridae. Mae'n deulu o dros 200 o feirysau sy'n heintio amryw helaeth o greaduriaid asgwrn cefn, creaduriaid di-asgwrn-cefn a phlanhigion. Mae'r rhabdoviridae sy'n heintio anifeiliaid a phobl yn rhannu'n 2 genws, y lyssafeirws a'r fescwlofeirws. Mae'r feirws a all effeithio ar bobl yn cynnwys 6 genoteip sy'n debyg iawn i feirws nodweddiadol y gynddaredd, sef sereoteip 1. Sereoteip 5 a 6 yw feirysau EBL.

### **Y gynddaredd mewn pobl**

9. Mae'r rhan fwyaf o achosion o'r gynddaredd mewn pobl yn ymwneud â sereoteip 1 a chn sy'n heintio pobl gan amlaf. Gall cleifion fod ag amryw helaeth o arwyddion clinigol a daw salwch cynyddol ar y diwedd.

10. Yn ystod y cyfnod magu mae'r sawl sydd wedi'i heintio'n teimlo'n iawn gan amlaf. Gall y cyfnod magu amrywio o 4 diwrnod i hyd at 19 o flynyddoedd yn ôl rhai adroddiadau llenyddol. Mae'r cyfnod magu'n para rhwng 20 a 90 diwrnod fel arfer, ac mae'n para llai na blwyddyn mewn 95% o achosion. Cyfnodau magu hir iawn sy'n esbonio pam nad yw rhai achosion o'r gynddaredd yn dod i'r amlwg. Mae'n bosib bod y cyfnod magu'n dibynnu ar bellter y brathiad o'r ymennydd. Ar ôl y cyfnod magu daw'r dwymyn a cholli archwaeth, cyfog a chwydu. Efallai y ceir cur yn y pen, anhwylder a syrthni. Ar

ôl 2 i 10 diwrnod efallai y daw'r arwyddion niwrolegol cyntaf i'r amlwg. Gall hynny gynnwys problemau wrth siarad a chydsymud. Efallai y daw hydroffobia bryd hynny ynghyd â dryswch, deliriwm, rhithweledigaethau a gorfywioogrwydd. Ar ôl y cyfnod aciwt hwn, a all bara am 7 diwrnod arall, gall y claf fynd i goma ac mae bron yn sir o farw.

Gyda chymorth dwys, gall cleifion wella weithiau.

### **Goblygiadau'r achosion diweddar yn y Deyrnas Unedig**

11. Mae'n amlwg o'r 2 achos hwn yn ddiweddar ei bod yn dra thebygol bod feirws EBL ymhlith ystlumod. Mae'n anarferol i'r sereoteip arbennig hwn fynd y tu hwnt i ystlumod. Anaml iawn y byddant yn heintio anifeiliaid eraill a phobl.

12. Cynghorir y cyhoedd i beidio â chyffwrdd ag ystlumod a pheidio â cheisio trin ystlumod, yn arbennig felly os oes golwg wael arnynt. Mae'r cyngor ynghylch brechu wedi newid yn ddiweddar er mwyn sicrhau bod gwirfoddolwyr sy'n trin ystlumod yn cael cynnig brechiad yn ogystal â phobl a chanddynt drwydded i'w trin.

**Jane Hutt**

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Cyswllt:** Dr Mike Simmons, Uwch Swyddog Meddygol. Ffôn : 029 2082 3505.